

# amserbeibl

## Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

### Astudiaethau Beiblaidd o'r Testament Newydd

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH  
Luc 11: 1-10  
Mathew 6: 5-15



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Luc 11:9

### Astudiaeth 1 Bod yn Gristion – Dysgu am Weddi


#### Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Luc 18: 1-14    I Timotheus 2: 1-6    Philipaid 4: 6-7

Mae Efengyl Luc yn sôn sawl gwaith am Iesu'n gweddio. Iesu yw'r esiampl orau sydd gennym ar gyfer ein bywyd gweddi. Felly, dylai pob Cristion ddilyn esiampl yr Arglwydd Iesu a threulio amser yn 'siarad â Duw' mewn gweddi.

**C** Beth ofynnodd y disgyblion i Iesu ar ôl iddo orffen gweddio?

**C** Gallwn ofyn i ni'n hunain, "Beth yw gweddi?". Ysgrifennwch eich diffiniad chi o weddi.



I

Mae'n bwysig gwybod ar BWY rydyn ni'n gweddio. Er mwyn i ni allu cyfarch Duw yn iawn fel "Ein Tad", mae'n rhaid ein bod wedi ymddiried yn yr Arglwydd Iesu i faddau ein pechodau. Yna, rydym yn dod yn aelodau o deulu Duw ac mae Duw'n dod yn Dad i ni. Nid geiriau i ni eu hailadrodd yn ddifeddwol yw'r weddi a ddysgodd Iesu i'w ddisgyblion, ond gweddi i ni ei defnyddio fel patrwm. Mae'n ein dysgu BETH i weddio amdano a BETH y mae siarad â Duw yn ei olygu.


## CROESAIR

### I Lawr

- Rydyn ni i fod i gadw enw Duw yn \_\_\_\_\_.
- Dylen ni weddio ar Dduw y \_\_\_\_\_.  
4. Dylen ni weddio am weld \_\_\_\_\_ Duw yn dod.

### Ar Draws

- Duw biau'r \_\_\_\_\_.
- Beth y dylen ni ei wneud i bobl sydd wedi gwneud rhywbeth yn ein herbyn.



I

5

Dim ond pan fydd pethau'n mynd o chwith y mae rhai pobl yn gweddio. Mae eraill yn meddwl am weddi fel ffordd o ofyn i Dduw am y pethau yr hoffen nhw eu cael.

**C** Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i wneud geiriau a fydd yn dangos beth yw gweddio go iawn (efallai y bydd yn werth cael geiriadur wrth law):-

**A** \_\_\_\_\_ (DD A L O I)

Mae hyn yn golygu canmol Duw am ei gariad a'i ddaioni.

**C** \_\_\_\_\_ (S U C FF E Y)

Mae hyn yn golygu cyfaddef ein pechodau wrth Dduw.

**D** \_\_\_\_\_ (CH O I D L)


Mae hyn yn golygu gwerthfawrogi'r pethau da mae Duw wedi'u rhoi i ni.

**D** \_\_\_\_\_ (S I F Y D E)

Mae hyn yn golygu gofyn i Dduw am bethau penodol.

**E** \_\_\_\_\_ (R O L I E I)

Mae hyn yn golygu gofyn i Dduw am help ar ran pobl eraill.



5

Nawr, gadewch i ni weld SUT a LLE y dylen ni siarad â Duw.

**C** Trowch yn ôl i Mathew 6 i weld beth roedd Iesu'n ei ddysgu.

Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ynteu'n anghywir

Dylai gweddi fod yn beth preifat, ar eich pen eich hunan gyda Duw .....

Dylech ailadrodd yr un brawddegau dro ar ôl tro wrth weddio. ....

Dylech weddio mewn ysbryd gwylaidd, yn barod i dderbyn gwobr gan Dduw, nid canmoliaeth gan bobl. ....

3

I

**C** Beth mae Mathew 6: 8 yn ein dysgu am y Duw yr ydym yn gweddio arno?

Yn y Darlleniad o'r Beibl yn Luc, rydym yn cael ein dysgu bod angen bod yn daer wrth weddio a bod angen gweddio'n rheolaidd.

**C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n ein hannog i ddal ati i weddio.

I

Cofiwch y gallwn weddio UNRHYW BRYD yn UNRHYW LE.

**C** Ysgrifennwch ym mha lefydd y bu'r tri dyn hyn yn gweddio.

**JONA (Jona 2: 1)** .....

**SILAS (Actau 16: 24-25)** .....

**PEDR (Actau 10: 9)** .....

Pa bethau newydd rydych chi wedi'u dysgu am weddi yn yr astudiaeth hon?

3



DARLLENWCH  
Actau 17: 10-14  
2 Timotheus 3: 14-17



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Salm 119: 105

## Astudiaeth 2 Bod yn Gristion – Dysgu am y Beibl

### Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen


Salm 1      Actau 18: 24-28      Iago 1: 21-25

Un o'r ffyrdd gorau o ddysgu am Dduw yw darllen ac astudio ei Air, y Beibl, a elwir weithiau yn 'Ysgrythurau Sanctaidd'.

**C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a thanlinellu'r geiriau sy'n dangos i ni beth y gall Gair Duw ei wneud drosom.

2

**C** Darllenwch Actau 17: 10-12 ac ateb pob cwestiwn  
**YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN.**



1. Sut y gwnaethon nhw ymateb i Air Duw?
2. Pa mor aml oedden nhw'n "chwilio'r Ysgrythurau"?
3. Pam rodden nhw'n "chwilio'r Ysgrythurau"?

3

**C** Beth ddigwyddodd o ganlyniad iddynt "chwilio'r Ysgrythurau" a pha adnod sy'n dweud hyn wrthym?

2



Adnod



Mae'n bwysig rhoi amser i ddarllen y Beibl. Fel pobl Berea, mae angen rhoi amser ac ymdrech i geisio deall beth rydym yn ei ddarllen.

**Er mwyn dod i arfer darllen rhan o'r Beibl bob dydd, beth am ddefnyddio llyfryn bach i'ch helpu? Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r cyfeiriad ar ddiwedd yr astudiaethau hyn.**

2

**C** Pwy arhosodd ym Merea pan fu'n rhaid i Paul adael?

..... a .....


Cafodd yr ail Ddarleniad o'r Beibl ei ysgrifennu at un o'r dynion hyn. Ysgrifennodd Paul ato yn sôn am bwysigrwydd Gair Duw

1

**C** Ers faint roedd Timotheus yn gyfarwydd â'r Ysgrythurau sanctaidd?



**C** Yn ôl 2 Timotheus 3: 16, ym mha ffyrdd y mae'r Ysgrythurau'n fuddiol?



1
2
3
4

2

**C** Darllenwch 2 Timotheus 3: 17 ac ysgrifennu **YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN** beth yw canlyniadau astudio'r Ysgrythurau.


2

Rydyn ni am ddysgu am ddua ddyn, y naill yn yr Hen Testament a'r llall yn y Testament Newydd, a oedd yn gwerthfawrogi Gair Duw ac yn ei astudio.

**C** Darllenwch Esra 7: 10. Roedd Esra'n astudio'r Gyfraith (rhan o'r Hen Testament).  
Beth arall oedd e'n ei wneud?

1
2

2

Treuliodd Esra amser yn dod i nabod Gair Duw. Mae'n batrwm da i ni ei ddilyn.

**C** Darllenwch Actau 18: 24-28.  
Pwy ddaeth i Effesus a dysgu'r Ysgrythurau?

--

I

Yn adnod 26, roedd yn barod i dderbyn help ac anogaeth gan y Cristnogion eraill. Fyddwn ni byth yn gwybod popeth am Air Duw. Mae'n rhaid bod yn barod i ddysgu mwy bob amser!

**C** Darllenwch adnod 28. Nodwch un peth a wnaeth o ganlyniad i'r ffaith ei fod yn barod i ddysgu mwy am yr Ysgrythurau gan bobl eraill.


I

Os yw Gair Duw'n mynd i'n helpu ni, rhaid i ni gofio pwynt pwysig yn lago 1: 21-25.

**C** Ysgrifennwch adnod 22 a thanlinellu'r rhan o'r adnod sy'n dweud bod angen rhywbeth mwy na "chlywed y gair".


2

**Beth am roi nod i chi'ch hunan o ddarllen  
rhan o'r Beibl bob dydd?**

**Gofynnwch i Dduw'ch helpu i wneud y pethau  
rydych chi'n eu dysgu yn y Beibl.**



DARLLENWCH  
Ioan 15: 1-17  
Galatiaid 5: 22 a 23



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Ioan 15: 5


### Astudiaeth 3 Bod yn Gristion – Byw er mwyn Duw

#### **Awgrymiadau am Adnoda Eraill i'w Darllen**

Galatiaid 5: 16-24      Rhufeiniaid 6: 20-23

Fel rheol, mae garddwyr yn tocio'u rhosod ar ddiwedd y gaeaf. Os buoch yn gwyllo rhywun yn gwneud hyn, efallai'n bod wedi meddwl ei fod yn tocio gormod. Ar ôl iddynt orffen, does dim llawer i'w weld ar ôl. Ond yn yr haf, bydd llawer o ddail a blodau ar y planhigion hynny. Mae hyn yn ein hatgoffa y dylen ni fod fel planhigion. Fel y mae blodau hardd yn tyfu ar blanhigion, dylen ni flodeuo hefyd, a bod yn debyg i lesu Grist.

**C** Darllenwch adnoda 1-5 ac ysgrifennu brawddeg am y Tad, y Cristion ffrwythlon a rhywun nad yw'n dwyn ffrwyth.



**Y Tad**  
Adnod \_\_\_\_\_

**Y Cristion sy'n dwyn ffrwyth**  
Adnod \_\_\_\_\_

**Y person nad yw'n dwyn ffrwyth**  
Adnod \_\_\_\_\_

3


**C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a thanlinellu'r rhan o'r adnod sy'n dweud wrthym beth yw cyfrinach bywyd Cristion sy'n dwyn ffrwyth.

2

**C** Darllenwch adnoda 4 a 7 a nodi yn y blwch beth y mae'n bwysig i Gristion ei wneud er mwyn tyfu'n ysbrydol.

1

**C** Darllenwch 2 Timotheus 3: 16 ac ysgrifennu'n fyr, **YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN**, beth yw gwerth Gair Duw ym mywyd y Cristion.



2

**C** Darllenwch y Darleniad cyntaf o'r Beibl ac ysgrifennu sut y gallwn ni ddangos i lesu ein bod yn ffrindiau iddo.

1

Er mwyn i Cristnogion dyfu, mae'n rhaid iddyn nhw fwynhau perthynas agos gyda lesu. Mae hyn yn golygu gwrando ar ei eiriau a bod yn ufudd iddynt.


- C** Pa ddau ganlyniad sydd i'w gweld ym mywydau Cristnogion os ydyn nhw'n gwneud hyn? (Darllenwch adnodaau 10 ac 11)

1

2

2

Trowch i Galatiaid 5: 22 a 23.  
Pan fydd Cristnogion yn rhoi lle i'r Ysbryd Glân, sy'n byw ynnynt, maent yn dod yn fwy tebyg i lesu. Dyma naw o 'ffrwythau'r ys�ryd' a oedd i'w gweld ym mywyd lesu ac a ddylai fod i'w gweld yn ein bywydau ni hefyd.



- C** Ysgrifennwch y rhinweddau yn y grawnwin.



5

- C** Darllenwch Ioan 15: 1-8 eto ac ysgrifennu rhif yr adnod sy'n dweud wrthym pam y dylem ddwyn llawer o ffrwyth.

Adnod

2

- C** Ysgrifennwch Colosaid 1: 10. Gwnewch hyn yn weddi i chi, wrth i chi geisio byw bywyd sy'n dangos rhinweddau Iesu Grist.


2

Cofiwch, mae pa mor ffrwythlon yw'r winwydden yn dibynnu ar y bywyd sy'n llofo trwy ei changhennau. Dywedodd Iesu "Fi yw y wir Winwydden". Er mwyn i'n bywydau ni fod yn ffrwythlon i Grist, mae'n rhaid i ni 'aros ynddo ef fel y mae'r gangen yn sownd wrth y winwydden. Rydyn ni'n dod yn rhan o'r Winwydden pan dderbyniwn ni Iesu'n Waredwr ac yn Arglwydd. Mae'n rhaid i ni wneud hynny er mwyn dechrau byw bywydau sy'n ffrwythlon i Grist.





DARLLENWCH  
Marc 12: 41-44  
Mathew 6: 1-4



ADNOD  
ALLWEDDOL  
2 Corinthiaid 9: 7

## Astudiaeth 4 Bod yn Gristion – Rhoi i Dduw

### **Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**

I Corinthiaid 16: 1-2 • 2 Corinthiaid 8: 1-9 a 9: 1-15

Mae'r astudiaeth olaf yn trafod rhoi. Faint ddylen ni ei roi? Pa mor aml ddylen ni roi?  
Sut y dylen ni roi?

- C** Darllenwch Actau 20: 35 ac ysgrifennu beth ddywedodd Paul yr oedd lesu'n ei ddysgu am roi.



I


- C** Yn ôl Marc 12: 41-44, pwy wnaeth lesu'i defnyddio i ddysgu gwers i'r disgylion?

I

## Pos Geiriau

### Ar draws

- Pa fath o bobl oedd yn rhoi llawer o arian?
- Pa air sy'n cael ei ddefnyddio ddwywaith i ddisgrifio'r wraig weddw?



5

### I lawr

- Dyweddodd lesu bod y wraig weddw wedi rhoi y \_\_\_\_\_.
- Roedd y bobl yn rhoi eu harian yn y \_\_\_\_\_.
- Sawl darn o arian roddodd y wraig yn y gist?


2

- C** Dywedwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN pam roedd lesu'n dweud bod y wraig wedi rhoi mwy na phawb arall.

I

- C** Beth mae hyn wedi'i ddysgu i chi am roi?

Gwelodd lesu hi ac roedd yn gwybod beth oedd yn ei chalon! Gwelodd beth oedd AR ÔL yn hytrach na beth oedd wedi'i ROI. Ydyn ni'n aberthu wrth roi? Yn aml, dydyn ni ddim yn rhoi i Dduw am y rhesymau iawn



2

- C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a THANLINELLU y geiriau sy'n dangos sut y dylen ni feddwl am roi.

Yn Mathew 6: 1-4, gwelwn lesu'n dysgu eto sut i roi.

C

1. Beth ddylen ni ei wneud yn y dirgel? (Adnod 1)
2. Pam ddylen ni wneud hyn yn y dirgel?
3. I bwy ddylen ni fod yn wahanol?
4. Ym mha ffordd ddywedodd lesu y dylen ni helpu pobl eraill?


1  
2  
3  
4

4

C Yn y set hon o astudiaethau, rydyn ni wedi darllen am rywbeth arall y dylon ni ei wneud yn y dirgel.  
Beth yw hwnnw?

I

Dylen ni ddim meddwl mai dim ond arian neu garedigrwydd y gallwn ni eu 'rhoi'. Gallwn roi amser neu dalentau hefyd.



C Darllenwch 2 Corinthiaid 8: 1-5 yn ofalus. Nodwch beth roddodd y Cristnogion hyn i'r Arglwydd cyn iddyn nhw helpu Cristnogion eraill ac eglwysi.



Rhoddodd yr Arglwydd lesu Grist ei hunan drosom ni pan fu farw ar y groes. Pan sylweddolwn ni hyn, y peth lleiaf y gallwn ni ei wneud yw rhoi ein hunain iddo ef.

2

C Ysgrifennwch 2 Corinthiaid 9: 15 a gofyn i chi'ch hunan "Gan fod Duw wedi rhoi'r fath anrheg i mi, beth ddylwn i ei roi iddo ef?"

I

cyfanswm

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD. Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffôn i'w 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.

Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts. Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Powys LL53 6SH ☎ 01766 819120